29.06.22
Neris Morgans
01545 572695

Annwyl Syr/Fadam

Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir cyfarfod FFORWM CYLLID YSGOLION CEREDIGION am **10.00yb** ar **Ddydd Gwener, 1 Gorffennaf, 2022** i drafod y materion canlynol:

1. Ymddiheuriadau.

2. Datgelu buddiant personol.

3. Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod a gyfarfu ar 30 Ionawr 2019.

4. Materion yn codi o'r Cofnodion.

5. Cronfeydd wrth gefn Ysgolion ar 31 Mawrth 2022.

6. Diweddariad Cyllid Corfforaethol.

7. Unrhyw fater arall.

Dear Sir/Madam

I write to inform you that a Meeting of the CEREDIGION SCHOOLS FINANCE FORUM will be held at **10.00am** on **Friday, 1 July, 2022** for the transaction of the following business:

1. Apologies.

2. Disclosure of personal interest.

3. To confirm the Minutes of the Meeting held on 30 January 2019.

4. Matters arising from the Minutes.

5. School Reserves as at 31 March 2022.

6. Corporate Finance Update.

7. Any Other Business.

**Yr eiddoch yn gywir/** Yours faithfully

***Miss Lowri Edwards***
***Swyddog Arweiniol Corfforaethol, Gwasanaethau Democrataidd/***
*Corporate Lead Officer, Democratic Services*

**At: Gadeirydd ac Aelodau Fforwm Derbyn Ysgolion Ceredigion**
To: Chairman and Members of the Schools Admissions Forum

**Cofnodion Cyfarfod Fforwm Cyllid Ysgolion Ceredigion a gynhaliwyd yn Ystafell Ystwyth, Penmorfa, Aberaeron ddydd Mercher, 30 Ionawr 2019.**

**Yn bresennol**: y Cynghorydd Catrin Miles (Cadeirydd).

**Aelodau heb fod o ysgolion**: Meinir Ebbsworth, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion; Steve Johnson (Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael), y Cynghorydd Odwyn Davies (Cadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cymunedau sy'n Dysgu), Endaf Edwards (Is-Gadeirydd Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cymunedau sy'n Dysgu).

**Aelodau o ysgolion:**
Penaethiaid: Mair Hughes (Penglais), Dorian Pugh (Henry Richard), Alwyn Ward (T Llew Jones).
Llywodraethwyr: Gary Davies (Ciliau Parc), Chris Evans (Ysgol Uwchradd Aberteifi).

**Swyddogion yn bresennol**: Eifion Evans, Prif Weithredwr; Chris Macey, Cyfrifydd y Gwasanaeth – Cefnogaeth i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol; Kay Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

5.00pm –6.05pm

**1 Gweithdrefn**
Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**2 Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn, Barry Rees (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Catrin Lawrence, Lodwick Lloyd a Peter Wellington am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

**3 Datgelu Buddiannau Personol**
Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant personol.

**4 Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**
**CYTUNWYD** cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2017 yn rhai cywir.

**5 Materion yn Codi o'r Cofnodion**
5.9 – Cronfa Ysgolion 21ain Ganrif –nodwyd bod hwn yn mynd yn ei flaen yn Ysgol Uwchradd Aberteifi.
9. Cyllideb y Gwasanaeth Dysgu 2017 – 18 – Gan nad chafwyd digon o arian cyfatebol i wneud cais am y grant chwaraeon, nodwyd na ddilynwyd y trywydd hwn.

**6 Cyllido Ysgolion yng Nghymru – Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Hysbysodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion y cyfarfod am yr ymgynghoriad i gyllido ysgolion yng Nghymru. [1] Tynnodd sylw at ymateb Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru sy'n casglu ymatebion o'r 22 awdurdod.
Nodwyd y gor-ddibyniaeth ar grantiau i gynnal cyllid craidd.

[1] http://www.assembly.wales/Research%20Documents/18-047/18-47-Web-Welsh.pdf

Dywedwyd bod Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Cynulliad Cenedlaethol Cymru i ymweld â Phwyllgor Plant a Phobl Ifanc yn Ysgol Gyfun Aberaeron ar 7 Chwefror, 2019 er mwyn deall yn well sut mae prosesau cyllido ysgolion yn gweithio'n ymarferol a beth yw eu heffaith. Bydd yn gyfle i'r ysgol gyfleu ei safbwynt ar yr effaith yn sgil toriadau i'r gyllideb.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth a roddwyd.

**7 Cronfeydd wrth Gefn ar Gyfer Ysgolion**

Ystyriwyd y ddogfen Cronfeydd Ysgolion wrth Gefn. Dywedwyd ei bod hi'n debygol y bydd y ffigyrau yn lleihau'n sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

Codwyd pryderon mewn perthynas â'r ffaith fod arian grant yn cael ei dderbyn ar ddiwedd blwyddyn tra dylai yn ddelfrydol gael ei gynnwys yng nghyllid ysgolion ar ddechrau'r flwyddyn.

Hysbysodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion y cyfarfod y byddai grantiau a weinyddir gan ERW yn cael eu dosbarthu yn wahanol yn y dyfodol. Bu dosbarthu yn anghyson yn y gorffennol ond mae strwythur rheolaeth newydd yn ei le erbyn hyn ac yn y dyfodol bydd y fformiwla yn cael ei defnyddio'n gyson.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth.

**8 2019-2020 y Gyllideb Gorfforaethol**

Hysbysodd Swyddog Arweiniol Corfforaethol:Ysgolion y cyfarfod i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Cymunedau sy'n Dysgu gyfarfod ynghynt yn y dydd, i ystyried cynnig y gyllideb mewn perthynas ag ysgolion. Cytunodd y Pwyllgor i'r cynigion. Mae adroddiad y gyllideb i'w gyflwyno i'r Cabinet ar 5 Chwefror ac yna i'w gymeradwyo'n derfynol gan y Cyngor ar 21 Chwefror 2019. Nodwyd bod angen dod o hyd i gynilion o £6m ar draws gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2019-20.

Nododd yr her o ariannu'r diffyg o £2.1m yn y gyllideb i ysgolion oherwydd y codiad cyflog a ddyfarnwyd yn ddiweddar i athrawon. Mae yna gynnydd hefyd o ran cost i'r cyflogwr.

Mae'r Llywodraeth wedi cytuno talu 55% o wir gost y codiad cyflog ond nid oes cyllid ar gael yng Nghymru i dalu'r gweddill a'r costau pensiwn cysylltiedig. Mae lobïo yn parhau ar i arian gael ei roi ar gyfer hyn.

Yn y cyfamser, byddai'r cynnig i godi Treth y Cyngor i 7%, yn hytrach na 5%, yn codi cyllid i dalu'r diffyg mewn ysgolion. Cynigiwyd a chytunwyd ar y cynnig yn y Pwyllgor Cydlynu Trosolwg a Chraffu diweddar lle trafodwyd y gyllideb ar gyfer 2019-20.

A bwrw bod y Cyngor yn cytuno i gynnydd o 7% yn Nhreth y Cyngor, nododd y Prif Weithredwr pe bai unrhyw arian ychwanegol yn dod o'r Llywodraeth ganolog, yna ni fyddai unrhyw arian ychwanegol a dderbynid yn cael ei glustnodi i ysgolion. Nodwyd hefyd y byddai arian o'r cynnydd ychwanegol yn Nhreth y Cyngor yn diogelu'r diffyg am flynyddoedd lawer.

Dywedodd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Ysgolion y byddai cyllidebau drafft yn cael eu dosbarthu i ysgolion ar 4 Chwefror, yn seiliedig ar y diffyg o £2.1m. Byddai'r cyllidebau yn cael eu diwygio pe bai'r Cyngor yn cytuno i'r codiad o 7% yn Nhreth y Cyngor.

Nodwyd hefyd y byddai ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio'r Cwricwlwm ac Asesiad yn cael ei ystyried gyda hyn.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.

**9 Fformiwla Ariannu 2019-20**

Ystyriwyd y prif bwyntiau yn ystod cofnod 8.

**CYTUNWYD** nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.

**10 Adolygiad Arfaethedig y Fformiwla Ariannu**

Dywedodd Cyfrifydd y Gwasanaeth – Cefnogaeth i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol fod yr adolygiad yn digwydd bellach, er iddo gael ei ohirio yn y gorffennol. Bydd yr adolygiad yn edrych yn ofalus ar sut mae cyllid ysgolion yn cael ei rannu.

Codwyd pryderon mewn perthynas â pharhau i gyflogi athrawon pan fo niferoedd disgyblion yn gostwng. Dywedwyd y dylai telerau ac amodau staff gael eu strwythuro mewn modd a fyddai'n gymorth i reoli sefyllfaoedd fel hyn.

Cynigiwyd ystyried mynediadau disgyblion a fydd yn dechrau'r ysgol yn y dyfodol wrth strwythuro'r fformiwla.

Nodwyd y byddai ymateb yn cael ei lunio i gynnig y fformiwla newydd.

**CYTUNODD** aelodau nodi'r wybodaeth a gyflwynwyd.

**11 Meincnodi Ariannol Ysgolion**

Mae prosiect a ddechreuwyd yn y de ddwyrain, lle mae ysgolion tebyg yn gallu cymharu a rhannu arfer dda, bellach yn brosiect cenedlaethol. Gall ysgolion elwa o'r ffaith fod hwn ar gael a gallant gysylltu gyda Chyfrifydd y Gwasanaeth - Cefnogaeth i'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol am fwy o wybodaeth.

**12 Unrhyw fater brys arall**

Nid oedd unrhyw faterion brys eraill i'w trafod.

**13** Dyddiad y cyfarfod nesaf: I'w drefnu.

**Cadeirydd: _______________**

**Dyddiad: ____________**